S4/C

Cynllun Gweithredu Amgylcheddol S4C ar gyfer 2008

1. Cefndir

Tair blynedd yn ôl fe gynhaliodd S4C asesiad trwyadl, gyda chydweithrediad ei chyflenwyr ynni, gyda'r nod o geisio lleihau ei defnydd o ynni gan arbed arian a lleihau ei hôl-troed carbon ar yr un pryd.

O ganlyniad i'r arolwg, cafwyd newidiadau yn y meysydd canlynol:
- gwella'r sustem tymheru'r awyr;
- addasu offer rheoli ac amseru'r gwresogi;
- gosod offer amseru ar gyfer goleuadau a datgelyddion Is-Goch Goddefol lle bo'n bosibl;
- gosod unedau goleuo modern ac effeithiol yn y maes parcio yn lle'r hen oleuadau.

Yn ogystal, fe wnaed asesiad o fanteision ynni'r haul a'r gwynt. Fe osodwyd paneli haul y llynedd ac maen nhw'n gweithio'n dda.

Ymdrinnir â gwastraff S4C mewn modd eco cyfeillgar trwy ddefnyddio'r dulliau gwaredu cywir ar gyfer ailgylchu lle bo hynny'n bosibl. Anogir y staff i ddiffodd unrhyw offer a goleuadau ar ôl eu defnyddio.

2. Bydd S4C yn cyrraedd statws Carbon Niwtral yn gynnar yn 2008.

Nod S4C yw ennill statws carbon niwtral llawn yn gynnar yn 2008.

Er mwyn cyrraedd y nod yma, bydd S4C yn asesu ei hôl-troed carbon llawn trwy gynnal asesiad cynhyrchu carbon gyda chydweithrediad yr ECC, cwmni cydnabyddedig o fewn y diwydiant. Bydd yr asesiad yn:

(i) Mesur ein defnydd o drydan a nwy.
(ii) Mesur y milltiroedd a deithir gan y sefydliad ar fusnes trwy gyfrwng pob dull o deithio. h.y. ffyrdd, rheilffyrdd a hedfan, gan gynnwys teithio yn ôl ac ymlaen o'r gwaith.
(iii) Asesu'r gwastraff a grëir yn S4C a'i hôl-troed carbon gweithredol.
(iv) Gweithredu unrhyw ostyngiadau pellach posibl yn y meysydd uchod.
(v) Defnyddio dulliau tactegol o annog a fydd yn arwain at ymddygiad eco cyfeillgar ym mhob man yn S4C.

Bydd yr wybodaeth uchod yn cael ei throsi'n dunelli CO_2 a byddwn yn buddsoddi mewn prosiectau lleihau carbon ledled y byd sy'n gyfwerth â swm y carbon a gynhyrchir gennym. Gobeithir cyflawni hyn trwy gydweithio gyda The CarbonNeutral Company, sydd yn gwmni blaengar yn y maes hwn. Gwir effaith hyn yw y bydd S4C yn sicrhau, trwy ei dulliau gweithredu, nad yw'n ychwanegu gwir CO_2 i'r amgylchedd.

Bydd hyn yn caniatáu S4C i hawlio statws CarbonNeutral. Gellir wedyn defnyddio'r brand a logo CarbonNeutral®, y brand mwyaf cydnabyddedig ar gyfer gweithredu gwirfoddol ar newid hinsawdd, cael lle ar wefan The CarbonNeutral Company, ymuno â rhwydwaith cwmnïau CarbonNeutral a chael ein cynnwys yn ei ddeunydd cyhoeddusrwydd cyffredinol.

Nid helpu'r amgylchedd a chyflawni ein hymrwymiadau fel corff cyhoeddus fydd yr unig fanteision, gan y bydd hefyd yn dangos bod S4C yn arwain trwy esiampl. Bydd S4C i'w gweld yn cymryd rhan flaenllaw yn y diwydiant gan gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater pwysig hwn.